

### **Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau gwresog i Mrs Cerys a Mr Dewi Roberts ar enedigaeth eu merch fach, Nel Siriol. Rydym i gyd yn edrych ymlaen i weld Mrs Cerys Roberts a Nel Siriol yn fuan iawn.

### **Pnawn Coffi MacMillan**

Cafwyd ddiwrnod llwyddiannus iawn Dydd Gwener, 2ail o Hydref pan gynhaliwyd pnawn o goffi a chacen i godi arian at elusen hollbwysig, elusen MacMillan. Bu Ms Barnes a'r Cyngor Ysgol yn hynod o brysur yn paratoi ac yn croesawu'r rhieni a theuluoedd yn ystod y prynhawn. Diolch o galon i Ms Barnes, Anti Shirley a'r Cyngor Ysgol am eu gwaith yn ogystal, diolch i bawb a ddaeth i'n cefnogi ac i bawb a fu'n brysur yn coginio cacennau a bisgedi. Casglwyd £253 tuag at yr elusen, da iawn chi.

### **Techniquet**

Cafodd blant dosbarth Llywelyn a Ffrydlas ymwelwyr o ganolfan Techniquet, Glyndŵr yn ystod yr hanner tymor er mwyn dysgu, arbrofi ac ymchwilio'r esgyrn a'r corff. Roedd yn brofiad gwych. Cafwyd digonedd o amser i arbrofi, chwarae, holi, dysgu am nifer o agweddau gwyddonol. Rydym yn edrych ymlaen i wahodd y tîm to er mwyn dysgu am agweddau eraill.

### **PC Meirion Williams**

Cawsom ymweliad gan PC Meirion Williams I addysgu plant y Cyfnod Sylfaen am yr hyn sy'n gywir ac yn anghywir yn yr ysgol, adref ac yn y gymuned. Mae gan PC Meirion Williams ffordd arbennig o gyflwyno'i neges, ac mae'r plant yn deall y gwahaniaeth rhwng yr hyn sy'n gywir ac yn anghywir.

### **Diolchgarwch**

Cafwyd amrywiol themau yn ein cyflwyniadau diolchgarwch eleni eto a'r disgyblion yn morio canu! Braf oedd yr Eglwys lleol o dan ei sang a chefnogaeth ein rhieni yn werth y byd! Cafwyd gwledd – o'r plant lleiaf un yn y dosbarth Derbyn hyd at y plant hynaf ym Mlwyddyn 6. Prynawn gwerth chweil a diolch i bawb!

### **Cymru Cŵl**

Rydym wedi bod yn mwynhau wythnos llawn egni a bwrlwm wrth ddatlu ein Cymreictod yn ystod Wythnos Cŵl Cymru.. Roedd yr wythnos yn llawn brwdfrydedd a gweithgareddau sy'n ceisio rhoi balchder i ddisgyblion am eu hiaith a'u cenedligrwydd. Roedd y plant wrth eu boddau yn cael dysgu am ein arwyr Cymraeg o flynyddoedd maith yn ol megis Llywelyn Fawr ac arwyr heddiw erenghraifft George North. Diolch yn fawr i Anti Shirley am baratoi cinio gwerth chweil ar ein cyfer er mwyn datlu.